Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/*Clerk*: Fflur Lawlor
E-bost/*E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol /
Tregaron Town Council Meeting following the AGM –
Nos Lun / *Monday* 16.05.2022

8.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / *Memorial Hall*

COFNODION MIS MAI / MAY MEETING MINUTES

	Eitem / *Item*	Gweithred / *Action*
1.	**PRESENNOL / PRESENT**: Cyng/Cllr Rhydian Wilson(Cadeirydd/Chair), Catherine Hughes Arwel Jones Laura Sherman, Rhian Jones, Owain Pugh, Dafydd Richards, Dewi Evans, Karen Bulman a Sian Jones (trwy/*through* Teams) Clerc / Clerk – Fflur Lawlor Cyng/Cllr Ifan Davies, CCC	
2.	**YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES** Dim ymddiheuriadau / *No apologies*	
3.	**ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT** Ni allai PC John Evans fynychu'r cyfarfod ond darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth. Adroddwyd *PC John Evans could not attend the meeting but the Clerk read out an email sent with information*	
4.	**DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST** Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth / penderfyniadau ynglŷn ag Argraffwyr Lewis + Hughes. Clerc yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn ag Argraffwyr Lewis + Hughes. *Cllr Catherine Hughes declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Agraffwyr Lewis + Hughes.* *Clerk declaring an interest in any discussion with regards to Agraffwyr Lewis + Hughes.*	
5.	**CYNGOR SIR CERDIGION COUNTY COUNCIL** 17.1 – Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / Emails forwarded to Councillors prior to meeting. • Ebost / *Email* Lisa Evans – 25.03.2022 – Cynrychiolwyr Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonnau Cyngor Sir Ceredigion / *Town and Community Councillor Representatives for Ceredigion County Council's Ethics and Standards Committee* • Ebost / *Email* Streetworks – 07.04.2022 – Cau Ffordd Dros Dro / *Temporary Road Closure* -	

	- B4343 Pont Carfan 13/05/2022 08:00-17:00 – gwaith polion/*poling works* - A485 Heol yr Orsaf – 8:00am 21/05/2022 – 1:00am 22/05/2022 – Tregaroc - Sgawr Tregaron – 20:00 19/05/2022 – 18:00 22/05/2022 - Tregaroc • Ebost / *Email* Gwasanaethau Technegol Ceredigion *Technical Services* – lampau strydoedd newydd yn dod diwedd mis Mai / *new street lights coming end of May* • Ebost / *Email* 11.05.2022 Gwasanaethau Technegol Ceredigion *Technical Services* – Draft Dyluniad draft o'r arwyddion tref newydd, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Tref – pawb yn hapus gyda'r dyluniad. *Artwork of the new town signs, asking for approval from the Town Council – all happy with design.* 17.2 – Diweddariad gan yr Aelod Lleol, Cyng Ifan Davies – • Diolchodd am y croeso. • Cwrdd â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion yn Nhregaron yr wythnos nesaf, cynnig i'r Cadeirydd i ymuno â nhw. Update from the Local Member, Cllr Ifan Davies - • Thanked everyone for the welcome. • Meeting the Chief Executive of Ceredigion County Council next week in Tregaron, offer to the Chairman to join them.	
6.	**CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 17/03/2022** Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. *It was agreed that this was a true record of the minutes.* Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes	
7.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES** 19.1– Tudalen / *Page* 2 – • 7 – 19.4 Ebost wrth Jack Griffiths, Tihill – hapus i gwrdd gyda'r Cyngor. Clerc wedi ymateb ond yn aros am ymateb pellach wrth Jack Griffiths. *Email from Jack Griffiths, Tihill - happy to meet the Council. Clerk has responded but is awaiting further response from Jack Griffiths.* Tudalen / *Page* 3 – • Tref Wifi / *Town Wifi* Clerc i gysylltu â Telemat i drefnu dyddiad i osod y pwyntiau. *Clerk to contact Telemat to arrange an installation date for the points.* Derbyniodd y Cyng Catherine Hughes e-bost gan y Gweinidog Julie James yn ymateb i'w e-bost yn ymwneud â ffosffadau – Clerc i anfon hwn ymlaen at bawb. *Cllr Catherine Hughes received an email from the Minister Julie James in response to her email with regards to phosphtes - Clerk to forward this on to all.*	Clerc / *Clerk*

8.	**CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS** Balans y Banc / Bank Balance – • Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £25,120.58 • Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £16,923.62 • Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Current (Cadeirydd / *Chairman*) – £3,476.96 • Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve (*Gratuity*) – £255.15 20.1 Cyflog y Gweithiwr Strydlun / Streetscene worker salary Mis Mawrth (£208.80) a Ebrill (£208.80) £417.60 20.2 Cyflog y Clerc / Clerk salary Mis Mawrth/March (£216) a Ebrill/April (£216) £432.00 20.3 HMRC Mis Mawrth/March (£106.20) a Ebrill/April (£106.20) £212.40 20.4 TTS (Nwyddau glanhau'r dref/Supplies to clean the town) £125.58 20.5 Agraffwyr Lewis + Hughes (Printio/Printing) £50.52 20.6 Deian Rees a'i Fab (Parc / Park) £800.00 20.7 Costau'r Clerc / Clerk Costs 2021/2022 £366.15 Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/*Seconder*: Cyng/Cllr Dewi Evans 20.8 – 30.04.22 – Taliad preacept o £8,000 wedi ei dderbyn / Preacept payment of £ 8,000 received 20.9 – Archwilio Cymru – Dyddiad cau cyfrifon – paratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2022 a chyhoeddi cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 30 Tachwedd 2022 *Audit Wales – Accounts deadline – preparation and certification of draft accounts by 31 August 2022 and publication of final audited accounts by 30 November 2022* 20.10 – Bob mis ar y 6ed, mae £15 yn mynd o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif wrth gefn. Pawb yn gytûn i hyn barhau am y flwyddyn ariannol hon. *Every month on the 6th, a standing order for £15 goes from the current account to the gratuity account. All in agreement fo this to continue for this fianancial year.* Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Owain Pugh Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Rhian Jones	
9.	**ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT** Mae angen gwneud y canlynol - • Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road • Glanhau strydoedd eraill yn eu tro Is-bwyllgor i gyfarfod i drafod y canlynol – • Swydd Disgrifiad • Cynllun Gwaith • Amserlen gwaith – cynnwys wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol • Taflenni amser	Cyng / *Cllr* Rhian Jones Sian Jones Laura Sherman

	The following needs to be done - • *Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road* • *Other streets to be cleaned in rotation* *Sub Committee to meet to discuss –* • *Job description* • *Plan of work* • *Timetable of work – to include the week of the National Eisteddfod* • *Timesheets*	
10.	**CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS** Dim i'w gofnodi. *Nothing to report.*	
11.	**UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES** Ebyst wrth Tracy Gimartin-Ward Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. *Emails from Tracy Gimartin-One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.*	
12.	**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU / NATIONAL EISTEDDFOD 2022** 24.1 – Ebyst wrth Gerwyn Jones a Phil Jones, Cyngor Sir Ceredigion gyda diweddaraid. *Emails from Gerwyn Jones and Phil Jones, Ceredigion County Council with updates.* 24.2 – Betsan Moses am fynychu cyfarfod mis Mehefin i drafod cynlluniau yr Eisteddfod pawb yn gytun. Clerk i gadarnahau gyda Betsan Moses. *Betsan Moses wants to attend June meeting to discuss the Eisteddfod plans - all in agreement. Clerk to confirm with Betsan Moses.* 24.3 – Awgrymwyd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wneud penderfyniadau ac awdurdodi gwaith rhwng cyfarfodydd os oedd angen a hysbysu pawb trwy e-bost - pawb yn gytûn. *It was suggested that the Chair and Vice Chair make any decisions and to authorise work in between meetings if need be and to keep everyone informed by email - all in agreement.* Cynnig / *Proposed*: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes Eilio / *Seconder*: Cyng/*Cllr* Rhian Jones 24.4 – Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol gyda ni cyn bo hir ac awgrymwyd y dylai Is-bwyllgor yr Eisteddfod gyfarfod yn gyson dros y misoedd nesaf - bob pythefnos ar nos Lun am 7 o'r gloch gyda'r cyfarfod cyntaf nos Lun, Mai 30ain 7yh yn y Neuadd Goffa. Aelodau'r is-bwyllgor – y Cynghorwyr i gyd i fynychu. *The National Eisteddfod will be soon with us and it was suggested the Eisteddfod Sub-Committee to meet regularly over the coming months - fortnightly on a Monday evening at 7pm with the first meeting on Monday, 30th May 7pm at the Memorial Hall. Sub committee members – all councillors to attend.*	Clerc / *Clerk*

	Cynnig / *Proposed*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones Eilio / *Seconder*: Cyng/*Cllr* Dafydd Richards Gwaith dylunio ar gyfer brand Tregaron - Clerc wedi derbyn dyfynbris o £80 am ddau ddyluniad. Pawb yn gytûn. *Design Artwork for the Tregaron branding - Clerk received a quote for £80 for two designs. All in agreement.* Cynnig / *Proposed*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones Eilio / *Seconder*: Cyng/*Cllr* Dewi Evans	
13.	**GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE** 25.1 – Ebost/*Email* 23.03.2022 – Ieuan Wyn, Ysgrifennydd Cylch yr Iaith – Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg *Ieuan Wyn, Secretary of the Welsh Language Group - Protecting Welsh Place-names* 25.2 – Cais am Nawdd / Financial Assistance request – • SyM / *WI* Tregaron – Dathliad y Jiwbili / *Celebrating the Jubliee* – £100 Cynnig / Proposed: Cyng/*Cllr* Owain Pugh Eilio / Seconder: Cyng/*Cllr* Laura Sherman Bydd y canlynol yn cael eu trafod fel arfer yn flynyddol yng nghyfarfod mis Mehefin – *The following to be discussed as we usual do annually in the June meeting –* • Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd • Canolfan Dreftadaeth Tregaron *Heritage Centre* • Undeb y Mamau / *Mothers Union*, Eglwys Sant Caron *Church* Tregaron 25.3 – Ebost 19/04/22 - Prosiect Gwledda Eisteddfod Genedlaethol – mae'r prosiect am adnabod 5 ardal cymunedol ar draws y sir sy'n tyfu bwyd – gyda'r potensial o wahodd cymunedau bwyd eraill I fod yn rhan hefyd, a mwynhau bod yn greadigol. Y gobaith yw addysgu mwy o bobl ynglŷn ag effaith gwastraff bwyd / newid hinsawdd, a hynny wrth fwynhau'r celfyddydau. Maent ar hyn o bryd yn ceisio adnabod y 5 cymuned, a wybod os unrhyw beth yn digwydd yn Nhregaron ar hyn o bryd o ran tyfu / garddio cymunedol – Clerc i ymateb bod y Cyngor Dref ddim yn ymwybodol o unrhyw prosiectau yn yr ardal. *Email 19/04/22 - National Eisteddfod 'Gwledda' Project - the project wants to identify 5 community areas across the county that grow food - with the potential to invite other food communities to get involved as well, and enjoy being creative. They hope to educate more people about the impact of food waste / climate change, while enjoying the arts. They are currently trying to identify the 5 communities, and know if anything is happening in Tregaron at the moment in terms of community growing / gardening - Clerk to respond that the Town Council is not aware of any projects in the area.*	Clerc / *Clerk* Clerc / *Clerk*
14.	**UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS** 26.1 –	

	Is-bwyllgor Parc / Blodau • Gwiriadau wythnosol Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng Owain Pugh yn cynnal yn mis Mai / Mehefin. Gwiriadau wythnosol i ddigwydd dros misoedd yr haf - Clerc i e-bostio pawb gyda'r ffurflen. Diolchwyd i Cyng Ann Jones a Rhydian Wilson am wneud dros y misoedd diwethaf. • Wedi cael caniatâd Adran Briffyrdd CSC am drwydded i leoli rhai o'r potiau blodau ychwanegol ond angen cysylltu ag Adran Ystadau CSC am ganiatâd ar gyfer Brynheulog a Maesyrawel. Clerc wedi cysylltu â'r adran ystadau, aros am ymateb. • E-bost 13.04.22 - ROSPA - Archwiliad blynyddol ym mis Mehefin - £70 *Park / Flowers Sub-Committee* • *Weekly Health & Safety checks of the Park to continue – Cllr Owain Pugh will carry out the checks for May / June. Weekly checks to be done over the summer – Clerk to email all with the form. Thanks was extended to Cllr Ann Jones and Rhydian Wilson for doing last couple of months.* • *Email 13.04.22 – ROSPA - Annual inspection in June - £70* • *Obtained permission from CCC Highways department for license to locate some of the aditional flower pots but need to contact CCC Estates department for permission for Brynheulog and Maesyrawel. Clerk has contacted Estates Department, awaiting their reply.* 26.2 – Is-bwyllgor Cynllun Lle • Ebost 12.05.2022 – Connor Cook, Cyngor Sir Ceredigion 12.05.2022 – E-bost wedi'i ddosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod - Gweithdy Cyfleoedd Isadeiledd Gwyrdd a Glas Tregaron – 26.05.22 - gall unrhyw un fynychu - Clerc a Chadeirydd i fynychu. • Ebost 09.05.2022 – Canolbwynt ymgynghori ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas y 6 Thref – e-bost wedi'i ddosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Clerc wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad a gofyn i bob Cynghorydd wneud hefyd. • E-bost 08.04.2022 - Beti Gordon, CSC - yn rhoi gwybod am y gwahanol ffynhonellau arian sydd ar gael ar hyn o bryd. Place Plan Sub-Committee • *Email 12.05.2022 - Connor Cook, Ceredigion County Council 12.05.2022 –* *Tregaron Green and Blue Infrastructure Opportunities Workshop – 26.05.22 – Email circulated to Cllrs prior to the meeting - Tregaron Green and Blue Infrastructure Opportunities Workshop - can anyone attend - Clerk and Chair to attend.* • *Email 09.05.2022 –* *Consultation hub for the Greening 6 Towns Green and Blue Infrastructure – email been circulated to the Cllrs prior to the meeting. Clerk has contributed to the consultation and asked all Cllrs to do as well.*	Cyng / *Cllr* Owain Pugh

- *Email 08.04.2022 - Beti Gordon, CCC - informing of the different funding currently available.*

26.3 –
Hyfforddiant Cod Ymddygiad – bydd angen trefnu dyddiad ar gyfer yr hyfforddiant.
Code of Conduct Training – a date will need to be arranged for the training.

26.4 –
Grant Cyfalaf Chwarae, CSC - Clerc wedi cyflwyno adroddiad diwedd prosiect.
Play Capital Grant, CCC - Clerk has submitted and end of project report.

26.5 –
Ciosg Coch BT, Sgwâr Tregaron – Clerc wedi cysylltu â BT i ofyn iddynt drwsio'r ffenestri oedd wedi torri ac a fyddent yn ystyried paentio'r ciosg cyn yr Eisteddfod. Bydd ffenestri'n cael eu trwsio a byddent yn gweld a ellid ei beintio gan mai dim ond unwaith bob 10 mlynedd y mae'n cael ei beintio ac fe'i gwnaed ddiwethaf yn 2017.

BT Red Kiosk, Tregaron Square - Clerk contacted BT to ask them to fix the broken windows and if they would consider painting the kiosk prior to the Eisteddfod. Windows will be fixed and they would see if it could be painted as it only gets painted once every 10 years and it was last done in 2017.

26.8 –
Kieran Elliott - yn bwriadu gwneud gwaith ar Gerflun Henry Richard ar benwythnos sych ym mis Mehefin - i gyd yn gytûn.

Kieran Elliott - planning on doing work on Henry Richard Statue on a dry weekend in June - all in agreement.

26.7 –
Cyng/*Cllr* Catherine Hughes –
A ydy yr eiddo eiddo canlynol o fewn y ward wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ar eu heiddo neu os angen -

- Sied ar dir ger Fferm Caebwd, Tregaron (cae ar ymyl y ffordd)
- Carafán yn y cae cyn lôn Tŷ Llwyngaru
- Menage ar Fferm Llwyngaru

Clerc i adrodd i Adran Gynllunio CSC. — Clerc / *Clerk*

Have the following properties within the ward obtained planning permission for development on their property if needed -

- *Shed on land by Caebwd Farm, Tregaron (field on roadside)*
- *Caravan in field before lane of Llwyngaru House*
- *Menage on Llwyngaru Farm*

Clerk to report to CCC Planning Department.

Cyng/*Cllr* Dewi Evans –
Cae parc - pryd mae CSC yn mynd i dorri gwair. Clerc wedi bod yn e-bostio ond heb gael ateb. Bydd yr aelod lleol Cyng Ifan Davies yn cysylltu â CSC.

	Park field - when are CCC going to cut the grass. Clerk has been emailing but has had no reply. Local member Cllr Ifan Davies will contact CCC. Cyng/*Cllr* Owain Pugh – Cerrig yr Orsedd - a oes penderfyniad wedi ei wneud os yw hyn i ddigwydd. Dywedodd y Clerc wrth y cyfarfod bod penderfyniad wedi ei wneud mewn cyfarfod blaenorol i gynnwys prosiect CNC ger yr Afon Brennig iddo. *Cerrig yr Orsedd - has a decision been made as to whether this is to happen. Clerk informed the meeting that a decision had been taken in a previous meeting to include it the NRW project by the Brennig River.* Cyng/*Cllr* Arwel Jones – Hen safle'r ysgol gynradd - plant yn chwarae a'r y safle, angen cloi'r gatiau - Clerc i gysylltu gyda'r Adran Ystadau CSC. Cinio Blynyddol y Cyngor Tref - anfonwch unrhyw syniadau at y Clerc. *The old primary school site - children are playing on the site, gates need to be locked - Clerk to contact the Estates Department CCC.* *Town Council Annual Dinner - any ideas please send to the Clerk.*	Clerc / *Clerk*
	Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 20fed Mehefin 2022 am 7.00pm pryd disgwlir Betsan Moses, Eisteddfod Genedlaethol i ymuno. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron. *The next monthly meeting will be held on Monday 20th June 2022 at 7.00pm when Betsan Moses, National Eisteddfod will be joining. It will be held at Tregaron Memorial Hall.*	
	Terfynwyd y cyfarfod / *Meeting was closed*	